**Cofnodion Cyfarfod Arbennig o Gyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd nos Lun, Chwefror 8fed 2016 am 6.30 o'r gloch yn Neuadd y Dref Dinbych.**

**Presennol:** Cynghorwyr Raymond Bartley, Gaynor Morgan Rees, Medwyn Williams, Colin Hughes, Brian Davies, Roy Tickle, Mark Young, Gaynor Wood-Tickle, Catherine Jones, Philip Stevens, Marilyn Jones a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cyng Margaret Bowe, Rob Parkes.

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod arbennig. Croesawodd y cadeirydd y Cyng Marilyn Jones i'w chyfarfod cyntaf a llongyfarchodd y Cyng Jones ar gael ei hethol fel aelod o'r Ward Uchaf.

Cyfeiriodd clerc y dref at farwolaeth diweddar brawd i'r Cyng Margaret Bowe a chytunwyd i yrru llythyr yn cydymdeimlo.

**175. Datganiad Diddordeb Personol.** Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

**176. Apwyntio Clerc y Dref a SCC.** (1) Cyfeiriodd y cadeirydd yr aelodau at yr adroddiad a baratowyd gan y gweithgor a'r argymhellion oedd yn gynwysedig o fewn yr adroddiad. Awgrymodd clerc y dref fod dau o fanylion ychwanegol yn cael eu hychwanegu at y disgrifiad gwaith. Cytunodd y cyfarfod a hyn.

(2) Arweiniodd y cadeirydd yr aelodau drwy'r manylion oedd yn gynwysedig yn y disgrifiad gwaith a chymeradwywyd pob manylyn.

(3) Cyfeiriodd y cadeirydd at yr hysbyseb swydd a chafwyd cryn drafodaeth. Cytunwyd diwygio'r hysbyseb gan gynnwys yr eirfa "neu fel" cyn "gopi caled" ac ychwanegu paragraff gyda'r eirfa "Am fwy o wybodaeth cysylltwch â chlerc y dref". Yn amodol ar eirfa ychwanegol **Penderfynwyd** (10 pleidlais o blaid ac un bleidlais yn cael ei hatal) **i gymeradwyo'r hysbyseb swydd.**

(4) Awgrymodd y Cyng Medwyn Williams y dylid cynnwys ddogfen "Manyldeb Person" yn ychwanegol i'r disgrifiad gwaith. Cafwyd cryn drafodaeth a chafwyd nifer o awgrymiadau ar beth ddylai gael ei gynnwys. Dywedwyd y dylid cadw'r mater yn syml a bod y disgrifiad gwaith yn ddigon cynhwysfawr. Yn y diwedd cytunwyd nad oedd angen ddogfen "Manyldeb Person".

(5) Cododd y Cyng Medwyn Williams y mater o gynllun pensiwn y bydd rhaid i'r cyngor gael yn ei le a beth oedd am ei gynnig. Cytunwyd i ofyn am gyngor oddi wrth SLCC.

(6) Cyfeiriodd y cadeirydd at restr fer yn dilyn derbyn ceisiadau. Yn dilyn trafodaeth pan wnaed nifer o sylwadau, cynigodd y Cyng Philip Stevens, wedi ei eilio gan y Cyng Medwyn Williams bod y cyngor llawn yn cario allan y rhestru ber. Symudodd y Cyng Colin Hughes welliant wedi ei eilio gan y Cyng Gaynor Wood-Tickle fod panel o bump yn cael ei apwyntio i gario allan y rhestru ber. Pleidleisiodd saith o blaid y gwelliant a phedwar o blaid y cynnig - felly'r gwelliant a fu'n llwyddiannus. **Penderfynwyd,** felly, **bod panel o bump yn cael ei apwyntio i gario allan y rhestru ber.**

**Penderfynwyd** (10 o blaid ac un bleidlais yn cael ei hatal) **fod y panel yn cynnwys yr un aelodau a'r gweithgor.**

(7) Cyfeiriodd y cadeirydd at y cyfweliadau ac unwaith eto cafwyd cryn drafodaeth. Yn ôl y sylwadau a dderbyniwyd roedd yn amlwg fod y sefyllfa yn mynd yn un cymhleth. Yn y diwedd **Penderfynwyd** (yn unfrydol) **fod y cyngor llawn yn bresennol yn ystod y cyfweliadau.** Cytunwyd hefyd fod y panel rhestr fer yn paratoi pump o gwestiynau i'w gofyn yn y cyfweliadau.

(8) Cytunwyd ar yr amserlen ddilynol:

(a) Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau 26.2.16
(b) Rhestr Fer 1.3.16
(c) Cyfweliadau 9.3.16 o 3 o'r gloch ymlaen (y cyngor i gyfarfod am 2.30 o'r gloch)

Am nad oedd mwy i drafod, terfynwyd y cyfarfod am 7.27 o'r gloch.

Arwyddwyd: …………………………………………………………………………..(Cadeirydd)

Dyddiad: ………………………..